

Ysgol Gymraeg Ifor Hael

Dosbarth Meithrin/Derbyn



Nursery / Reception Class

2022-2023

Cynnwys/ Contents

		Tudalen / Page
Croeso	Welcome	3
Gwybodaeth	Information	4
Dechrau yn y Dosbarth Meithrin / Derbyn	Starting in the Nursery / Reception Class	5
Trefniadau Dechrau a Diwedd Sesiwn	Beginning and End of Session Arrangements	5
Gwisg Ysgol	School Uniform	6
Salwch ac Absenoldebau	Illness and Absences	6
Moddion	Medication	6
Byrbryd	Snack	7
Clwb Brecwast (Derbyn yn unig)	Breakfast Club (Reception only)	7
Cyswllt Cartref	Home-School Links	7
Addysg Gorfforol	Physical Education	8
Gemwaith	Jewellery	8
Dillad tu allan	Outdoor clothing	8
Amser tŷ bach	Toilet time	8
Arian Cinio (Derbyn yn unig)	Dinner Money (Reception only)	8
Bocsys bwyd iach	Healthy lunchboxes	9
Poteli ar gyfer dŵr	Water bottles	9
Llau pen	Headlice	9
Trefniadau parcio ceir	Car parking arrangements	9
Teganau	Toys	9
Sut all rieni helpu?	How can parents help?	10
Cwricwlwm i Gymru	Curriculum for Wales	11
Cwestiynau cyffredinol	Frequently Asked Questions	12-13
Yr wyddor	The alphabet	14
POPAT	POPAT	15
Llawysgrifen yr ysgol	School's handwriting	16
Ffurfio rhifau	Number formation	17
System ddisgyblu bositif	Positive discipline strategy	18-20
Gweledigaeth yr ysgol	The school's vision	21
Ffurflen cais am absenoldeb	Request for absence form	22-23
Tymor ac amser dechrau	Term and start dates	24

Croeso/ Welcome

Croeso cynnes i chi i Ysgol Gymraeg Lfor Hael. Mae addysg eich plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn holl bwysig i ni. Cânt brofiadau sy'n creu sylfaen gadarn ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Rhoddir profiadau i'r plant er mwyn datblygu amryw o sgiliau ac yn fwy pwysig na dim i ddatblygu'n bersonol a chymdeithasol a gwneud hyn oll trwy'r iaith Gymraeg.

Ein nod yw creu awyrgylch hapus, groesawgar a hamddenol yma yn Ysgol Gymraeg Lfor Hael. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio â chi er lles a datblygiad eich plentyn, ac at rannu addysg eich plentyn mewn partneriaeth â chi.



A warm welcome to Ysgol Gymraeg Lfor Hael. We look upon the education your child will receive in the early years as being of utmost importance. The experiences provided will create a sound foundation for the years ahead.

We will provide a variety of learning experiences that will develop many skills, most importantly personal and social skills and the development of the Welsh language.

We aim to provide a happy, welcoming and relaxed learning environment in Ysgol Gymraeg Lfor Hael. We look forward to working with you to nurture your child's development and to sharing the exciting partnership in your child's education.

Gwybodaeth / Information

Ysgol Gymraeg Ifor Hael
Clos Meon
Betws
Casnewydd
NP20 7DU

Prifathrawes / Headteacher: Mrs Bethan Parry-Jones

**Cadeirydd y Llywodraethwyr /
Chair of Governors:** Ms Olwen Allender

Ysgrifenyddes / Secretary: Ms Tracy Deakin

Rhif ffôn / Phone number: 01633 414694

E-bost / e-mail: ysgol.gymraegiforhael@newportschools.wales

Safwe'r ysgol / School website: www.iforhael.cymru


Amseroedd sesiynau / Session times:

Meithrin / Nursery

Bore yn unig / Morning only: 9.15am – 11.45am

Derbyn / Reception

9.00am – 3.00pm



Dosbarthiadau / Classes:

Mili Malwen

Meithrin / Nursery

Athrawon / Teachers: Mrs H Black a Mrs Rogers

Cynorthwywyr/ Assistants: Ms Harries, Mrs Downes

Elfed yr Elffant

Derbyn / Reception

Athrawes / Teacher: Miss E Jones

Cynorthwywyr/ Assistants: Miss Baber

Modd o gyfathrebu â rhieni / Mode of communication with parents:

trwy e bost / email – ysgol.gymraegiforhael@newportschools.wales

DECHRAU YN Y DOSBARTH MEITHRIN / DERBYN STARTING IN THE NURSERY / RECEPTION CLASS

Mae dechrau ysgol yn brofiad arbennig iawn, a gwyddom y gall yr wythnosau cyntaf fod yn rhai anodd ac yr ydym i gyd fel staff wedi ein hyfforddi ar sut i ddelio â phlant newydd. O brofiad gwyddom os ffarwelir â'r plentyn yn ddiffwdan, yn hapus ac yn hyderus, fe fydd y plentyn yn debygol o ymgartrefu'n gyflym. Os yw eich plentyn yn anhapus a dagreuol, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol yn hwyrach er mwyn cael tawelwch meddwl.

Starting school is a special occasion, and our aim as a staff, is to ensure that the transition between home and school is an enjoyable experience for you and your child. We appreciate that the first few weeks can be difficult, and all our staff are trained to deal with welcoming new children. From experience, we find that a swift, confident and happy farewell makes for a happy and confident child. If a child is unhappy and upset, please feel free to contact the school later in the day for reassurance.

TREFNIADAU DECHRAU A DIWEDD SESIWN BEGINNING AND END OF SESSION ARRANGEMENTS

Ym mis Medi gofynnwn i chi ddod a'ch plentyn i giât yr Hafan, sydd cyferbyn â maes parcio'r staff. Wedyn fe fydd y cynorthwydd yn helpu'ch plentyn i dynnu ei got/chof a'i osod ar y bachyn cywir ac i gofrestri ei hun ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Bydd tasgau wedi eu gosod o amgylch yr ystafell, er mwyn i'ch plentyn chwarae yn rhydd. Gofynnwn yn garedig i rieni adael eu plant cyn gynted â phosibl er mwyn iddynt setlo.

Ar ddiwedd y sesiwn gofynnwn i chi aros tu allan i'r prif ddrysau a byddwn yn hebrwng y plant i gwrdd â chi. Os oes rhywun gwahanol yn casglu eich plentyn gofynnwn yn garedig i chi ysgrifennu llythyr neu ffonio'r swyddfa. Ni fyddwn yn gadael i'ch plentyn fynd gydag oedolyn arall heb eich caniatâd chi.

Mae presenoldeb a phrydlondeb yn bwysig. Gofynnwn i chi ddod a'ch plentyn yn brydlon ar ddechrau'r sesiwn. Gofynnwn hefyd i chi gasglu'ch plentyn ar amser ar ddiwedd pob sesiwn. Diolch

In September we would appreciate if parents could bring their child to the gate next to the staff car park - 'The Hafan' where staff will open the gates for entry. Then, the classroom assistants will help your child to remove their coat and place it on the correct peg. They will then self register by finding their name and picture on the interactive white-board. Various tasks will be placed around the classroom for your child to play with. We kindly ask you to leave your child as soon as possible for them to settle.

At the end of the session we would appreciate if you could wait for your child outside the front doors/gates. We will call your child when we see that you are present. If your child is to be collected by someone else, could you please notify us by writing a letter for the class teacher or ringing the school. We will not allow your child to go with another adult without your permission.

Attendance and punctuality are important. We ask that you bring your child on time at the beginning of each session. We also ask that you collect your child on time at the end of each session. Thank you.

GWISG YSGOL / SCHOOL UNIFORM



Ein lliwiau yw glas tywyll ac aur: crysau polo aur gyda siwmpwr neu gardigan las tywyll (gyda logo'r ysgol). Gyda rhain dylid gwisgo trowsus, byrion, sgertiau neu binaffwr glas tywyll gydag esgidiau tywyll a sanau tywyll. Lliw ffrog haf yw gingham melyn. Dylid gwisgo sanau gwyn â'r ffrog haf. Gellir archebu gwisg ysgol yn uniongyrchol o'r wefannau

canlynol unrhyw bryd: www.brigade.uk.com (£1.50 yw'r gost am gludiant) neu www.myclothing.com. Mae crysau-t ymarfer corff a bagiau llyfrau ar gael o'r ysgol.

- **A wnewch chi sicrhau bod enw'r plentyn wedi ei nodi'n glir ar bob dilledyn, bag, het ayyb.**

Our colours are navy and gold: gold polo shirts with a navy cardigan or sweater (with the school logo). Navy trousers, shorts, skirts or pinafores are to be worn with dark shoes, and navy socks. The summer dress is yellow gingham. White socks should be worn with the summer dress. You can order items of uniform directly from the following website www.brigade.uk.com (£1.50 delivery charge) or www.myclothing.com. The PE t-shirt and book bags are available from the school.

- * ***Please ensure that every item of clothing/bag/hat etc is clearly labelled with your child's name.***

SALWCH AC ABSENOLDEBAU / ILLNESS AND ABSENCES

A fydddech mor garedig a rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw absenoldeb/salwch er mwyn sicrhau bod y rheswm cywir yn cael ei gofnodi ar gofrestr y plentyn? Er ein bod yn annog presenoldeb da, mae'n hanfodol bod eich plentyn yn gwella'n iawn cyn dychwelyd i'r ysgol fel nad yw'r salwch yn lledu i blant ac oedolion eraill. Os fydd eich plentyn yn cael ei daro'n sâl yn ystod y dydd, fe fyddwn yn cysylltu â chi. Mae'n ofynol i rieni llenwi ffurflen 'Cais Absenoldeb' (wedi atodi), mewn amgylchiadau eithriadol, am unrhyw absenoldeb a'i roi i'r Pennaeth. Mi fydd unrhyw absenoldeb heb eglurhad yn cael ei nodi fel un 'anawdurdodedig' ar y gofrestr. Gellir cofnodi absenoldeb trwy ebost.

Please notify the school if your child is ill so that the correct reason for absence can be noted on the register. Whilst stressing the need for good attendance, it is much better to keep your child at home if he/she is ill as the illness might be passed on to other pupils and staff. We will also contact you if your child becomes unwell during the day. Any requests for leave of absence, in exceptional circumstances, should be made in writing to the Headteacher (copy enclosed). Unexplained absences from school will be recorded as 'unauthorised absences' on the child's attendance record. Absences can be recorded via email.


MODDION / MEDICATION

A fydddech mor garedig a phaidio â danfon moddion i'r ysgol gyda'ch plenty? Ceisiwch sicrhau bod y moddion yn cael ei roi cyn ac ar ôl y diwrnod ysgol. Rydym yn cynorthwyo plant wrth iddynt ddefnyddio meddyginiaethau Asthma ond mae'n rhaid i'r pwmp gael ei labeli'n glir gydag enw'r plentyn. Mae ffurflen meddyginiaeth ar gael gan yr ysgrifenyddes.

Please do not send medication to school with your child, try to fit doses around school sessions. We are able to assist children in using Asthma medication but pumps MUST be clearly labeled with the child's name. A medication form is available from the secretary.

BYRBRYD / SNACK

Bydd eich plentyn yn derbyn llaeth pob dydd. Rydym yn gofyn am ddarn bach o ffrwyth pob dydd i'ch plentyn. Mae'r plant yn derbyn y byrbryd mewn sefyllfa cylch cymdeithasol pob dydd cyn amser chwarae.



Your child will be given milk every day. We request that you provide a small, fruit snack every day. Snack time is taken before play-times in a social, calm circle.

CLWB BRECWAST (DOSBARTH DERBYN YN UNIG) / BREAKFAST CLUB (**RECEPTION CLASS ONLY**)

Bydd rhaid i rieni sydd am i'w plant fynychu i gwblhau ffurflen gofrestru. Oriau'r clwb yw: 8.10 tan 8.30yb. Bydd y drysau'n cau yn brydlon am 8.30yb. **Ni fydd** plant hwyr yn cael mynediad oherwydd bydd staff yn edrych ar ôl plant ar yr iard.

*Parents wanting their children to attend will have to complete a registration form. Pupils not registered for the club, will not be allowed entry. Hours of operation: 8.10 – 8.30am. Doors will close promptly at 8.30am. Latecomers **will not** be allowed admission as Breakfast Club staff will be supervising pupils on the yard.*

CYSWLLT CARTREF a HWB / HOME-SCHOOL LINKS and HWB



Anogir y plant i ymgymryd â thasgau gartref sy'n ymwneud â'r thema / ffocws dysgu/ sgiliau penodol, o bryd i'w gilydd. Cewch wybodaeth bellach ynglŷn â'r tasgau hyn yn ein llythyron tymhorol a fydd yn egluro'r 'Cyswllt Cartref'. Cynhelir nosweithiau agored i rieni yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn, ac fe fyddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad eich plentyn yn ystod tymor yr Haf. Serch hynny, os oes gennych unrhyw

bryderon ynglŷn â datblygiad eich plentyn mae croeso i chi drefnu cyfarfod gyda'r athrawes ddosbarth ar unrhyw adeg.

Bydd cynllun darllen yn dechrau ar ôl Nadolig lle bydd y plant yn cael cyfle i ddod a llyfr adref er mwyn ymarfer y Gymraeg yn y cartref. (Derbyn)

Bydd gan eich plentyn cyfrif HWB (mwy o fanlynnion [yma](#)) a 'dosbarth rhithiol' ar Google Classroom, lle cyfathrebir â nhw/chi a gosodir gwaith i'ch plentyn yn achlysurol.

We encourage the children to take part in activities at home, which are relevant to the term's theme or which reinforce specific skills. You will be notified of these tasks in the termly newsletters explaining the 'Cyswllt Cartref' tasks. Open evenings are held in the Autumn and Spring terms, and a written report will be issued on your child's development at the end of the Summer term. However, should you wish to discuss any particular issue, parents should feel free to make an appointment with the class teacher at any time.

The children will also have the opportunity to take part in our reading scheme after Christmas (Reception).

Your child will receive a HWB account (more information [here](#)) in order to log into their 'virtual classroom'- Google Classroom, where their teacher will communicate with them/you and set work occasionally.

ADDYSG GORFFOROL/ PHYSICAL EDUCATION

Bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn un neu ddau sesiwn o Ddatblygiad Corfforol yr wythnos. Bydd angen i'r plant ddod a dillad ymarfer corff (crys-t a llodrau glas tywyll a trainers) ar ddechrau bob hanner tymor a fydd yn cael eu cadw yn yr ysgol a'u dychwelyd ar ddiwedd bob hanner tymor i'w golchi.

Your child will be participating in a Physical Development session once or twice a week. We ask that the children bring a P.E kit (navy t-shirt and shorts and trainers) to school at the beginning of term and leave it in school for the half term. We will then send it home to be washed at the end of each half term.



GEMWAITH / JEWELLERY

Ni chaniateir gemwaith o unrhyw fath yn yr ysgol. Caniateir clustlysau 'studs' yn yr ysgol yn unig. Dim clustlysau ar ddiwrnod Ymarfer Corff.



We do not allow jewellery to be worn to school. We only allow 'stud' earrings to be worn. Please remove all earrings on Physical Education day in order for your child to take part in lessons.

DILLAD TU ALLAN / OUTDOOR CLOTHING

Bydd angen pêr o esgidiau glaw a chot law ar eich plentyn. Gallant gael eu gadael mewn bag ar eu bachyn.



Your child will need Wellingtons and a raincoat. These can be kept in a bag on their peg.

AMSER Tŷ BACH / TOILET TIME

Er ein bod yn gwerthfawrogi y gall damweiniau ddigwydd weithiau, rhaid i'r disgyblion fod wedi eu hyfforddi i ddefnyddio'r tŷ bach cyn cychwyn yn y Dosbarth Meithrin/Derbyn. Os bydd damwain, caiff eich plentyn ei newid mewn modd llawn cydymdeimlad ac yn ddiffwdan. Os ydy'ch plentyn dal yn cael damweiniau, a wnewch chi anfon dillad sbâr i'r ysgol os gwelwch yn dda.



Children must be toilet trained before starting in the Nursery and Reception, although we appreciate that occasional accidents do happen. If an accident does occur your child will be changed sympathetically, with no fuss. If your child is still having the occasional toilet accident, please send in spare clothes. Please inform us if your child has special toileting needs.

ARIAN CINIO / DINNER MONEY

Plant Dosbarth Derbyn – rhaid archebu a thalu arian cinio (£2.15 y dydd) trwy: www.parentpay.com. Bydd pob rhiant yn derbyn cyfrif ParentPay ym mis Medi. Dydy'r ysgol ddim yn delio ag arian cinio o gwbl. Rhaid archebu a thalu am ginio wythnos o flaen llaw.



Reception Class children – dinner orders and money (£2.15 a day) are made through crediting an account with www.parentpay.com. Every parent will receive a ParentPay account in September. The school does not deal with any lunch money. All lunches have to be ordered and paid for a week in advance

BOCSYS BWYD MWY IACH / HEALTHIER LUNCHBOXES

Rydym yn rhan o ymgyrch 'Ysgolion Iachus'. Ni chaniateir losin/siocled neu ddiodydd pop/lemonêd. Gallech ddefnyddio darn o dorth ffrwythau, paced o gnau a rhesins, teisennau'r Groglith, twbyn o bwdin reis, twbyn o jeli ffrwythau (siwgr isel).

We are part of the 'Healthy Schools' initiative. We do not allow chocolate/sweets or drinks such as pop/lemonade. Alternatives to sugary foods and crisps could be a slice of fruit loaf, pack of nuts and raisins, hot cross buns, pot of rice pudding, tub of fruit jelly (low sugar).

POTELI AR GYFER DŴR / WATER BOTTLES

Mae ymchwil yn dangos fod sgiliau canolbwytio yn cynyddu os yw'r ymennydd wedi hydradu. O ganlyniad rydyn ni'n annog y plant i ddod â photel blastig o ddŵr (nid sudd neu sgwash, er mwyn atal pydredd dannedd). Fe fydd y poteli yn cael eu cadw yn yr ystafell ddosbarth ac mae'r plant yn rhydd i yfed y dŵr pryd y mynnent. Am resymau glendid, a allwch ysgrifennu enw eich plentyn ar y botel cyn dod i'r ysgol, diolch. Byddwn yn anfon y poteli adref ar ddiwedd pob dydd i'w golchi.



Research has shown that concentration skills improve if the brain is hydrated. As a result, we encourage children to bring a plastic bottle of plain water into the classroom (not juice or squash, in order to avoid tooth decay). The bottle will be kept in the classroom and the children are free to drink from it whenever they wish. For hygiene reasons, please ensure that your child's name is written on the bottle before he/she comes to school. The bottles will be returned home at the end of each day to be washed.

LLAU PEN / HEAD LICE



Mae llau pen yn boendod! Gofynnwn yn garedig i rieni cynorthwyo'r ysgol i adnabod a rheoli problem llau pen drwy archwilio rheolaidd a thrin unrhyw achosion o lau pen. (Nid yn unig pan fo llythyr yn dod o'r ysgol).

Head lice are a nuisance! We kindly ask parents to assist us in the prevention and management of head lice cases through regular checks of their children's hair and starting immediate treatment when head lice are detected.

TREFNIADAU PARCIO CEIR / CAR PARKING ARRANGEMENTS

Pan fyddwch yn dod â'ch plentyn i'r ysgol yn y bore mae'n ofynnol i chi barcio tu allan i gatiau'r ysgol. A wnewch chi barchu ein cymdogion trwy barcio'n synhwyrol os gwelwch yn dda.

When you bring and collect your child, you are required to park outside the school gates. Please respect our neighbours and park sensibly.

TEGANAU / TOYS

Peidiwch adael i'ch plentyn dod a theganau i'r ysgol. Arteffactau/Adnoddau sy'n berthnasol i'r thema yn unig, os gwelwch yn dda!



Please do not allow your child to bring toys to school. Artefacts/Objects relevant to the topic only please!

Sut allwch chi helpu? / How can you help?



- dysgu sut i wisgo cot a'i thynnu
teach your child to put on / take off their coat
- dysgu sut i fod yn annibynnol wrth fynd i'r tŷ bach a golchi dwylo
teach your child to use the toilet independently and to wash their hands
- ymrwymo'n gyson i gyfrif HWB eich plentyn (Google Classroom) a chyfathrebu'n aml gyda athro'ch plentyn trwy hwn
regular engagement with your child's HWB account (Google Classroom)
- ffonio'r ysgol os yw eich plentyn yn sâl am gyfnod - danfon llythyr wrth ddychwelyd
phone the school if your child will be absent long term due to illness – send a letter on return
- dychwelyd unrhyw dasg gartref ar y diwrnod cywir
return any home task set, on correct day
- ysgrifennu enw eich plentyn ar ddillad ac eiddo personol
ensure that your child's name is on clothes and personal belongings
- gadael i ni wybod yn union pwy fydd yn casglu eich plentyn o'r ysgol
inform us of whom exactly will be collecting your child from school
- dod a'ch plentyn / casglu eich plentyn yn brydlon, Os ydych yn hwyr i'r ysgol, rhaid arwyddo'r gofrestr a gwneud trefniadau cinio
bring / collect your child on time, If you are late for school, you have to sign the register and make arrangements for lunch
- cofiwch ddarllen llyfrau Cymraeg/gwyllo DVD Cymraeg/gwyllo S4C - Cyw
remember to read Welsh books/watch Welsh DVDs/watch S4C - Cyw
- dim clustdlysau na gemwaith o unrhyw fath ar ddiwrnod ymarfer corff
no earrings or jewellery of any kind on P.E day
- Os gwelwch yn dda, dysgwch eich plentyn i fedru sychu ei drwyn/thrwyn
Please teach your child to wipe his/her nose
- Rhowch gyfle i'ch plentyn i ddefnyddio gwahanol offer creadigol, ysgrifennu ac arlunio e.e creonau, pensiliau, paent, glud a sisyrnau
Give your child the opportunity to use a variety of creative, writing and drawing materials such as crayons, pencils, paint, glue and scissors
- Helpwch eich plentyn i adnabod ei enw/henw. Defnyddiwch brif lythrennau ar ddechrau'r enwau'n unig e.e Tomos
Help your child to recognise his/her own name. Use capital letters only at the beginning of his/her name e.g. Tomos
- Anogwch ef/hi i liwio tu fewn i amlinelliad e.e blodau, siapiau neu bobl
Encourage him/her to colour in simple outlines you have drawn e.g. flowers, shapes or people
- Darllenwch gyda ac i'ch plentyn cymaint â phosib (ee cyn amser gwely)
Read to, and with your child, as much as possible (eg before going to bed)



Gwybodaeth i rieni am 'Cwricwlwm i Gymru'

Mae Addysg yn Newid

Mae'r byd yn newid ac mae angen syniadau newydd a defnydd creadigol o dechnoleg. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn siŵr bod gan eich plentyn y wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau y bydd eu hangen arnyn nhw i wneud y gorau o fywyd. Mae athrawon ac arbenigwyr addysg o bob cwr o Gymru wedi bod yn cydweithio i ddatblygu Cwricwlwm i Gymru.

Am fwy o fanylion, dilynwch y linc [yma](#).
Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Pwysigrwydd Dysgu yn y Dosbarth Allanol

Dengys ymchwil bod plant sydd wedi cael profiadau o ddysgu yn yr awyr agored yn dechrau'r ysgol gyda sgiliau cymdeithasol cryf; gallant weithio mewn grwpiau yn effeithiol a dangosant lefel uwch o hunan barch ac annibyniaeth.

Cofiwch, bydd y dosbarth allanol yn cael ei ddefnyddio ymhob tywydd a does dim tywydd gwael, dim ond dillad gwael!

Information for parents- 'Curriculum for Wales'

Education is Changing

The world is changing and we need new ideas and creative use of technology. To address these challenges, the Welsh Government wants to make sure that your child has the knowledge, skills and experiences they'll need to make the most of life. Teachers and education experts from across Wales have been working together to develop the Curriculum for Wales.

For more information about the changes, please follow this [link](#).

Further information about the changes can also be found [here](#).

Importance of Learning in the Outdoor Classroom

Research has shown that children who experience learning opportunities in the open-air start school with solid social skills; they are able to work in groups effectively and they demonstrate high levels of self-respect and independence.

Remember, the outdoor classroom will be used in all weather and that there is no bad weather only bad clothes!

Atebion i Rai o'ch Cwestiynau

Pa fanteision sydd i fy mhlentyn fod yn ddwyieithog?

- Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n siarad mwy nag un iaith yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg
- Mae manteision economaidd o fod yn ddwyieithog, yn enwedig wrth chwilio am swydd yng Nghymru
- Mae siarad iaith arall yn agor drysau i amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau gwahanol
- Mae'n cynnig y cyfle i brofi diwylliant gwahanol a dau fyd o brofiad
- Gall helpu pobl i deimlo'n rhan o Gymru a chynyddu'r teimlad o berthyn
- Dwy iaith—dwywaith y dewis a dwywaith y cyfleoedd

Ydy Cymraeg yn iaith anodd ei ddysgu?

Nac ydy! Gyda chefnogaeth gall unrhyw blentyn ddysgu'r Gymraeg.

A yw plant yn cymysgu rhwng y ddwy iaith?

- Yn y dechrau bydd rhai plant yn defnyddio cymysgedd o'r ddwy iaith ond cyn hir byddant yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddwy iaith. Byddant yn ateb yn yr iaith mae'r person sy'n siarad â nhw yn defnyddio.
- Mae ymchwil yn dangos fod y gallu i siarad mwy nag un iaith yn gwella gallu plant i ddysgu a defnyddio ieithoedd yn gyffredinol
- Mae canlyniadau diweddar hefyd yn awgrymu bod plant sy'n derbyn addysg ddwyieithog yn gallu gwneud yn well mewn pynciau ar draws y cwricwlwm gan gynnwys Saesneg

Os ydy un rhiant yn siarad Cymraeg, sut allant helpu?

Mae hyn yn sefyllfa gyffredin yng Nghymru. Mae'n bwysig fod y rhiant sy'n medru siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg gyda'r plentyn cymaint â phosib. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn dangos agwedd bositif at yr iaith. Dangoswch eich bod yn mwynhau siarad Cymraeg a bydd eich plentyn yn hefyd!

Sut bydd y rhiant na all siarad Cymraeg yn teimlo a sut allant helpu?

- Nid oes rhaid iddynt deimlo allan ohoni. Mae'r rhan fwyaf o blant wrth eu bodd yn esbonio beth sy'n cael ei ddweud yn Gymraeg!
- Mae'n bwysig eu bod nhw'n cefnogi'r plentyn ac yn cymryd diddordeb.
- Gall fod o help i'ch plentyn drafod yn Saesneg yr hyn maent wedi dysgu yn Gymraeg

Rwy'n hoffi darllen gyda fy mhlentyn, oes rhaid darllen yn Gymraeg?

Nac oes, darllen gyda nhw sy'n bwysig. Unwaith bydd eich plentyn wedi dysgu darllen byddant yn defnyddio'r un sgiliau i ddarllen yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Frequently Asked Questions

What are the advantages of my child being bilingual?

- Research shows that children who understand more than one language are able to think more flexibly and creatively
- There are economic advantages, as increasingly in Wales employers are asking for bilingual skills. This is true for all areas of Wales not just in the predominantly Welsh speaking parts of Wales
- Speaking another language opens doors of opportunity socially as well as economically.
- Bilingualism provides opportunities to experience two different cultures. You see aspects of Wales in a different way.
- Two languages-twice the choice!

Is Welsh a difficult language to learn?

No! In a supportive atmosphere any child can learn to speak Welsh. Their brains soak in language like sponges. Learning a language is much harder for an adult.

Do children mix up the two languages?

- At the start a few children will use a mix of both languages, but they soon learn to separate them, and will use whichever language the person talking to them uses
- Research shows that speaking more than one language helps them learn and understand other languages
- Recent results also show that children receiving bilingual education tend to do better across the curriculum—including in English

I can't speak Welsh. How can I help my child?

- Support your child and show pleasure and pride in their ability to speak Welsh. If you feel confident enough try using some Welsh words, for example, colours and numbers
- Take an active interest in all aspects of your child's life and discuss what they have learned. It is good to reinforce what they have learned in Welsh by discussing in English
- Encourage any Welsh speakers you know to use the language with your child
- There are lots of other ideas on how to help your child within the handbook

What if one parent can speak Welsh?

This is a common situation. It is important that the parent who can speak Welsh speaks it as often as possible. There is no need for the non-Welsh speaking parent to feel left out as children usually take great pleasure in translating for them! Their contribution is equally as important.

Yr Wyddor / The Alphabet

The following are the letter sounds in Welsh.

We have used examples of English words so that you know how to say them.

a a <u>p</u> ple	b ba <u>g</u>	c c <u>a</u> r	ch *	d do <u>l</u>
dd the	e egg	f ve <u>s</u> t	ff fi <u>n</u> d	ng lo <u>ng</u>
g go	h ha <u>t</u>	i se <u>e</u>	j ja <u>m</u>	l le <u>g</u>
ll *	m me	n no	o mo <u>r</u> e	p pe <u>n</u>
ph fi <u>n</u> d	r re <u>d</u>	rh R <u>h</u> ys	s so	t to <u>y</u>
th thi <u>n</u>	u se <u>e</u>	w we <u>t</u>	y he <u>r</u>	

* - no English equivalent.

‘i’ is called ‘i (ee) dot’

‘u’ is called ‘u (ee) bedol’ or ‘u (ee) cwpan’

There is no ‘k’ or ‘z’ in the Welsh alphabet, but they are used in names and some words that have come from other languages.

POPAT


(Programme Of Phoneme Awareness Training)

1



hngllsil

2



nfg rhwth

3



mt rddpsh

4



ffjdcsb

llafariaid

5



ewawoiaewew

Llawysgrifen Ysgol Gymraeg Ifor Hael's Handwriting

a b c ch d dd e

f ff g ng h i j

l ll m n o p ph

r rh s t th u w y

A B C Ch D Dd E


F Ff G Ng H I J

L Ll M N O P Ph

R Rh S T Th U W Y

Number Formation

Can you trace the numbers?



System Ddisgyblu Bositif
Positive Discipline Strategy



Annwyl Riant,

Rydyn ni fel ysgol wedi cynllunio system ddisgyblu bositif sydd yn cael ei gweithredu drwy'r ysgol gyfan. Trafodwyd y rheolau/cytundebau â phob dosbarth ynghyd a gwobrau a chanlyniadau sydd yn gyson drwy'r ysgol gyfan. Trosodd mae copi o'r rheolau a disgwyliadau, ynghyd a disgrifiad o'r gwobrau a chanlyniadau. Hefyd mae yna gopi o dystysgrif a slip bydd yn dod adref gydag unigolion sydd yn cyrraedd brig y siart neu'r gwaelod. Er mwyn i'r system gweithio mae'n hanfodol ein bod ni'n derbyn eich cefnogaeth chi fel bod y disgyblion yn ymwybodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth ar strategaethau ymddygiad. Profwyd fod hyn yn allweddol i godi safonau ymddygiad a chyrhaeddiad.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth
Staff Ysgol Gymraeg Ifor Hael

Dear Parent,

The school has devised a whole school positive discipline strategy which every class follows. Each class teacher has worked on the rules/agreements with the pupils and has also put in place a set of rewards and consequences which are consistent throughout the school. Attached is a copy of the rules along with a list of rewards and consequences, also a copy of a praise card and 'sad' slip that will be brought home with your child if he/she reaches the top/bottom of their class reward chart. In order for the system to be successful, your support is essential and would be gratefully appreciated. It is key that pupils are aware that school and home are working in partnership on behaviour strategies as this is proven to improve both behaviour and academic standards.

*Thank you for your support
All Staff at Ysgol Gymraeg Ifor Hael*

Cytundebau Ysgol/Dosbarth (Camau Llwyddiant)

Rydyn ni'n parchu trwy...

...siarad Cymraeg a dathlu ein Cymreictod

...ofalu am eiddo a'n hamgylchfyd

...gyfathrebu'n gwrtais ac aros tro

Clustiau'n gwrando

Llygaid yn edrych

Gwefusau'n llonydd


Traed a dwylo'n llonydd

Meddwl ar ddiun

Dilyn cyfarwyddiadau y tro cyntaf

...fod yn garedig ac onest

...wneud ymdrech i drïo ein gorau glas



- Arddangosir y rheolau ynghyd a symbol addas ym mhob dosbarth.
- Esbonnir a chyfeirir at y rheolau'n gyson.
- Canmolir yn gyson er mwyn symud y disgyblion i fyny'r siart dosbarth.
- Symudir disgybl lawr y siart os yw'n torri'r rheolau/cytundebau yn gyson ond nodir hefyd ein bod ni fel ysgol a staff yn annog ymddygiad positif lle bo hynny'n bosibl. Maent yn ennill seren tuag at 'Amser Aur' i'r holl ysgol.

Gwobrau – fynyr Crwban


- Cam 1 - Clôd gan Athro/Athrawes dosbarth – ar goedd
- Cam 2 - Clôd gan Athro/Athrawes dosbarth arall- ar goedd
- Cam 3 - Clôd gan y Pennaeth – sticer/stamp a gwobrwyir cerdyn clod i'r plentyn yn y gwasanaeth 'Dathliadau' pob dydd Gwener.

Canlyniadau – lawr y Crwban

- Cam 1 - Amser meddwl mewn lle penodol yn y dosbarth.
- Cam 2 - Esboniad i athro/athrawes arall ac amser meddwl yn y dosbarth yna.
- Cam 3 - Esboniad i'r Pennaeth a slip 'trist' adref.

Byddwn yn tracio'r disgyblion sydd yn ennill 'Cardiau Clôd' a slipiau 'trist' adref. Bydd hwn o gymorth wrth i ni werthuso llwyddiant y system ac wrth dargedu'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Cymerir camau ychwanegol i ddelio ag unigolion sydd yn torri'r cytundebau ysgol/dosbarth yn rheolaidd.

School/Class Agreements (Steps to success)



We respect through...

...speaking Welsh and celebrating our Welshness

...looking after our environment

...communicating courteously and waiting our turn

Ears listening

Eyes looking

Lips quiet

Hands & feet still

Minds awake

Following instruction, the first time

...being kind and honest

...trying our very best at all times

- Each rule is clearly displayed in class along with a relevant symbol.
- Rules are explained and referred to consistently.
- Consistent praise is given when an agreement is adhered to and pupils climb up their class chart.
- Pupils move down the chart if they continually break the class rules/agreements. However, our policy as a school is to encourage and praise behaviours consistent with the rules/agreements as much as possible.

Rewards – up the Turtle

- Stage 1 -Class Teacher Praise – Public Praise.
- Stage 2 - Partner Teacher Praise- Public Praise.
- Stage 3 - Head Teacher Praise- Sticker/stamp and a praise card 'Cerdyn Clôd' is awarded to the child in the 'Celebration Assembly' every Friday. They earn a star towards the whole school 'Golden Time'.

Consequences – down the Turtle

- A warning is given before moving the child down the chart
- Stage 1 - Thinking time in designated area of the class.
- Stage 2 - Explanation to Partner Teacher and thinking time in Partner Teacher's class.

- Stage 3 - Explanation to Head Teacher and a 'sad' slip home.

Pupils will be tracked on how often they achieve a praise card or 'sad' slip home. This will assist us in evaluating the success of the system and in targeting pupils who need extra support. Further action will be taken if an individual consistently goes against the school/class agreements.





Llongyfarchiadau _____

Cerdyn Clôd

Yn anffodus mae _____ wedi ymweld â Mrs Parry-Jones heddiw am dorri cytundebau'r dosbarth yn gyson.



Unfortunately _____ has visited Mrs Parry-Jones today for consistently breaking the class agreements.



Cais am Absenoldeb yn ystod y Tymor



Mae'n ofyniad cyfreithiol ar rieni / ofalwyr i gael caniatâd y Pennaeth cyn tynnu eu plant o'r ysgol. Nid oes rhaid i benaethiaid awdurdodi absenoldeb neu wyliau. Bydd yr ysgol yn awdurdodi absenoldeb (heb fod yn salwch) mewn amgylchiadau arbennig neu eithriadol yn unig. Dylai rhieni lenwi'r ffurflen hon o leiaf 3 wythnos cyn i'r absenoldeb arfaethedig.

Gall absenoldeb heb awdurdod arwain at Hysbysiad Cosb. £120 yw'r ddirwy, oni bai eich bod yn talu o fewn 28 diwrnod, pan fydd y ddirwy'n £60. Os na fyddwch yn talu y ddirwy yn llawn erbyn y 43ydd diwrnod, cymerir camau cyfreithiol. Mae dirwyon hyd at £900 wedi'u cyflwyno am beidio â thalu'r Hysbysiadau Cosb Benodedig.

ADRAN RHINI:

Enw'r disgybl/ion:	Dosbarth:	
Diwrnod cyntaf yr absenoldeb:	Nifer o ddiwrnodau'r cais:	
Diwrnod ola'r absenoldeb:	Nifer o ddiwrnodau absenoldeb a gofnodwyd eisioes y flwyddyn academiaidd hon:	
Rhowch esboniad llawn pam y dylai'r absenoldeb hwn gael ei gymeradwyo, gan gynnwys pam yr ydych yn ystyried yr angen i fod yn amgylchiad eithriadol:		
Yr wyf yn ymwybodol y gall y Swyddog Lles yr Awdurdod Lleol gysylltu â mi os ystyrir absenoldeb fy mhlentyn/plant yn ormodol. Llofnod (Rhiant) _____ Dyddiad: _____		

ADRAN YSGOL:

Canran presenoldeb llynedd	Canran presenoldeb cyfredol	Nifer o ddiwrnodau blaenorol wedi'u hawdurdodi	Nifer o ddiwrnodau blaenorol anawdurdodedig
A fydd yr absenoldeb yn digwydd yn ystod profion (mis Mai)? Bydd / Na fydd			

Mae'ch cais am absenoldeb yn ystod y tymor wedi ei ystyried ac fe'i cofnodir fel a ganlyn:

Absenoldeb **gydag** Awdurdod ☐

Absenoldeb **heb** Awdurdod ☐ gan nad yw'n perthyn i gategori yr ydym yn gallu awdurdodi.

Sylwadau'r Pennaeth:

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Request for Absence During Term Time



It is a legal requirement for parents/carers to obtain the permission of the Headteacher before removing their child from school. Headteachers are not obliged to authorise absences or holidays. School will only authorise absence (non-sickness) in special or exceptional circumstances. Parents should complete this form at least 3 weeks before the proposed absence.

Unauthorised leave may result in the issue of a Penalty Notice. The fine is £120 unless paid within 28 days when it is £60. If the penalty is not paid in full by the 43rd day, this will result in legal action. Fines of up to **£900** have been issued for the non-payment of FPNs.

PARENT SECTION:

Name of pupil/s:	Class:	
Proposed first day of absence:	Total number of school days requested:	
Proposed last day of absence:	Number of days absence already recorded this Academic year:	
Please give a full explanation of why this absence should be approved including why you consider the need to be an exceptional circumstance:		
I am aware that I may be contacted by the Local Authority Welfare Officer if my child/children's absence is considered excessive.		
Signed (Parent) _____ Date: _____		

SCHOOL SECTION:

Last year's percentage attendance	Current percentage attendance	Number of previous days authorised	Number of previous days unauthorised
Will the absence occur during tests (May)? YES / NO			

Your request for absence during term time has been considered and will be:

Authorised

☐

Unauthorised

☐

as it does not fall into a category which we are able to authorise.

Headteachers's comments:

Signed: _____ Date: _____

Cyfeiriadau defnyddiol i brynu adnoddau Cymraeg Useful Addresses to buy Welsh Resources

Siop y Felin

54-60 Merthyr Road,
Whitchurch,
Cardiff,
02920692999
<http://www.siopyfelin.co.uk>

Llyfrau'r Enfys

5 Pentrebane St,
Caerphilly
CF83 1FR
029 2088 1784

Cewch gatalog Cyngor Llyfrau pob tymor i archebu llyfrau Cymraeg.
You will receive a termly Welsh Book Council catalogue to order Welsh books.

Cyfeiriadau ar y wê ar gyfer gemau, gwybodaeth a.y.y.b. Web addresses for games, information etc.

www.iforhael.cymru
<http://hwb.wales.gov.uk>
www.gwales.com
<https://cyw.cymru/en/> (Cyw)
<http://poridrwystori.booktrust.org.uk>
www.bbc.co.uk/bitesize
<http://www.appsinswelsh.com/all-apps/>

Dyddiadau'r Tymor / Term Dates

Blwyddyn Ysgol / School Year 2022/23				
Tymor / Term	Dechrau / Start	Hanner tymor yn dechrau Half term starts	Hanner tymor yn gorffen Half term ends	Tymor yn gorffen Term ends
Hydref/ Autumn 2022	2 Medi/September	31 Hydref/October	4 Tachwedd/November	23 Rhagfyr/December
Gwanwyn/Spring 2023	9 Ionawr/January	20 Chwefror/February	24 Chwefror/February	31 Mawrth/ March
Haf/Summer 2023	17 Ebrill/April	29 Mai/May	2 Mehefin/June	21 Gorffennaf/July
Inset days will be advised shortly May day Bank Holiday – 1.5.23				

Cynhelir pump diwrnod HMS yn ystod y flwyddyn academaidd hon - un ar ddechrau pob tymor a gewch wybod yn ysgrifenedig am y gweddill.

Five InSeT days are to be taken during this academic year – one will be held at the beginning of every term and you will be notified in writing of all others.